Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr

Cofnodion y Cyfarfod ar 11eg o Fai 2023

Yn bresennol Generys Roberts, Medwyn Roberts, Llyr Jones, Helen Jones, Gethin Jones, Arwyn Ellis, Eryl Evans (cadeirydd) a cyng Gwennol Ellis.

Am 7.30 cafwyd cyfarfod gyda 5 aelod o gwmni Bute Energy a ddaeth atom i siarad a chynllun fferm wynt Moel Chwa, Llanfihangel G M. Roedd Helen Jones yn datgan ei diddordeb a ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth.

Ei bwriad yw i osod i fynnu hyd at 12 dwrbein gwynt, felly cyfle oedd y cyfarfod yma i wrando ar ei cynlluniau ac i ofyn cwestiynnau ar y diwedd. Daeth nifer dda o gwestiynnau gan y cynghorwyr ir cynllun hwn nifer o bryderon a diffyg ffafriaeth i gael mwy o dwrbein yn yr ardal gan bod yna swm sylweddol yma yn barod. Nodwyd y ein cwestiynnau ac mi fyddwn yn derbyn atebion mae o law os na gafwyd ar y noson. Nodwyd mae yn y safle cynnar iawn yw'r cynllun a bydd a llawer mwy o cyfarfodydd agored i ddod maes o law.

Cafodd y rhestr diddordebau y cynghorwyr iw llofnodi.

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.

Gohebiaeth

1. ZURICH INSURANCE - yswiriant y Cyngor £276.21 pasiwyd i dalu.
2. CYNGOR SIR CONWY - Treth ar y toiledau dim treth.
3. ARCHWILIO CYMRU – anfoneb llynnedd am wneud y awdit £299.00 pasiwyd iw dalu.
4. YSSDDIRIEDOLAETH ADDYSGOL CERRIG – gofyn am gyfraniad pasiwyd i gyfrannu £100.00
5. ARIAN BYW – anfoneb gan Teleri Jones am wneud y cyflog clerc ac archwilio mewnol £50.00 pasiwyd iw dalu.
6. MR NICK FERGUSON – anfoneb am y flwyddyn am y gwaith ar y wefan.
7. SHAWS AND SON – annfoneb am lyfr Newydd cyfrifon y Cyngor £94.80 pasiwyd iw dalu.
8. CYNGOR SIR CONWY- precept cynta £2000.00.
9. CYNLUN GWARIANT 2023/24 wedi ei nodi.

UNRHYW FATER ARALL

SKIP pasiwyd i gael sgip ar 3ydd o Fehefin 2023.

BLODAU IR PENTRE pasiwyd bod y clerc yn gyfrifol am y blodau eto eleni.

AWDIT mae'r clerc wedi cwbwlhau y ffurflen flynnyddol ir awdit am 2022/23 ac wedi ei cymeradwyo gan y cynghorwyr ac arwyddwyd gan y cadeirydd.

Cadeirydd …………………………………………………………………..